

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ward Graham Davies, Ysbyty Coffa
Rhyfel Llanidloes, Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys

Dyddiad arolygu: 09, 10 a 11 Hydref 2023

Dyddiad cyhoeddi: 11 Ionawr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83577-425-0

© Hawlfraint y Goron 2024

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
• Ansawdd Profiad y Claf	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	21
4. Y camau nesaf.....	26
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	27
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	29
Atodiad C - Cynllun gwella	30

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Coffa Rhyfel Llanidloes, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 09, 10 a 11 Hydref 2023. Gwnaethom gynnal arolygiad o Ward Graham Davies, sy'n darparu gwasanaethau adsefydlu pobl oedrannus a gofal lliniarol ar gyfer hyd at 14 o gleifion.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad gwnaethom siarad â'r cleifion ar y ward pan oedd yn briodol gwneud hynny er mwyn clywed am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur i roi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad. Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion a'u perthnasau adborth cadarnhaol ynglŷn â'u profiadau ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael gofal da gan y staff ar y ward. Roedd y cleifion yn ymddangos yn lân ac yn drwsiadus ac roeddent yn gallu gwisgo eu dillad eu hunain. Roedd y ward yn ddigynnwrf, a gwelsom y staff yn rhoi gofal mewn ffordd broffesiynol. Roedd y staff yn cau'r llenni wrth roi gofal i gleifion yn y baeau cymunedol er mwyn helpu i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas.

Gwnaethom ofyn i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfleusterau ymolchi cymunedol er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu cleifion yn llwyr rhag y risg o gwmpo'n anfwriadol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai gwybodaeth fwy hygyrch fod ar gael i gleifion yn ystod eu cyfnod ar y ward.
- Dylai'r staff wneud defnydd llawn o'r holl fentrau gofal dementia sydd ar gael iddynt.
- Roedd angen gwaith pellach i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion ieithyddol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda

- Roedd yr ystafell gofal lliniarol yn gyfleuster modern a oedd yn cynnig urddas a phreifatrwydd i'r cleifion a'u teuluoedd. Roedd hon yn ased gwirioneddol i'r ward a'r gymuned gyfan
- Roedd y staff yn ymateb i glychau galw yn ystod yr arolygiad mewn modd amserol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd amgylchedd y ward yn lân i bob golwg ac roedd yn hygyrch i bobl ag anawsterau symudedd. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael, a gwelsom y staff yn golchi eu dwylo rhwng rhoi gofal i gleifion gwahanol. Roedd cyfarpar priodol a digonol ar gael ar y ward i ddiwallu anghenion y cleifion. Roedd gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal ar y cyfarpar dadebru a brys yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Roedd bwyd yn cael ei baratoi ar y safle bob dydd, ac roedd yn edrych yn dda ac yn flasus. Roedd cofnodion cleifion yn gyfredol ac wedi'u cwblhau'n dda ar y cyfan.

Roedd prinder lle storio ar y ward, a gwnaethom ofyn i'r bwrdd iechyd dacluso'r ystafell storio bresennol fel blaenoriaeth. Roedd dryswch ynglŷn â pha gleifion roedd angen gofal ychwanegol arnynt ac roedd angen gwelliannau yn y gwaith papur, a nodwyd gennym fod angen gwell cyfathrebu rhwng y staff.

Nodwyd gennym fod nifer o silindrau ocsigen mawr yn cael eu storio mewn ystafell ochr oddi ar y prif goridor. Ni chawsom sicrwydd bod y trefniant storio hwn yn cydymffurfio â'r canllawiau arfer gorau. Gwnaethom godi'r mater hwn â'r staff a chymerwyd camau i ymdrin â'n pryderon.

Roedd hefyd yn achos pryder i ni nad oedd rhai cleifion yn gwisgo bandiau adnabod claf yn ystod yr arolygiad. Er i hyn gael i ddatrys ar unwaith, rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd am ddiweddariad ar gamau pellach er mwyn sicrhau na fydd yr arfer o dynnu bandiau adnabod claf yn parhau mwyach.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd angen ychydig o waith cynnal a chadw er mwyn glanhau ffenestri to brwnt a theils nenfwd â staeniau arnynt.
- Mae'n rhaid gweithredu ar yr holl faterion ac argymhellion sy'n deillio o asesiadau risg tân ar unwaith.
- Dylid defnyddio sticeri dihalogi i nodi a yw cyfarpar meddygol aml dro wedi cael ei lanhau a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.
- Mae'n rhaid i'r staff edrych ar y Ddeddf Iechyd Meddwl, a phroses y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid er mwyn eu deall yn well. Hefyd, mae'n rhaid i asesiadau o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid gael eu cynnal yn ôl y gofyn, a chael eu cofnodi'n briodol yng nghofnodion cleifion er mwyn sicrhau nad yw cleifion yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon.
- Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r ffordd y caiff meddyginiaethau eu storio a'u diogelu ar y ward a mynd i'r afael â hynny.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cafwyd cyfraniad cadarnhaol gan nifer o wasanaethau er mwyn helpu i symud cleifion yn effeithlon i mewn i'r ysbyty ac allan o'r ysbyty.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd nifer o sefydliadau a gwasanaethau, megis gwasanaethau ailalluogi, gofal iechyd parhaus a gwasanaethau cymdeithasol, yn chwarae rhan yn y broses o gynllunio i ryddhau cleifion. Roedd aelodau o'r staff yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl. Gwelsom fod cydymffurfiaeth gyffredinol â

hyfforddiant gorfodol i'r staff yn uchel, gydag 82 y cant ohonynt yn cydymffurfio. Roedd nifer o archwiliadau yn cael eu cynnal i fonitro cydymffurfiaeth ag arferion gorau, ac roedd cyfarfodydd craffu yn cael eu cynnal i drafod materion megis cwmpadau a briwiau pwyso.

Cawsom rywfaint o adborth negyddol yn ymatebion y staff i holiaduron AGIC. Roedd hyn yn ymwneud â'r diwylliant arwain a rheoli ar y ward. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys sôn nad oedd uwch-reolwyr yn hawdd mynd atynt nac yn weladwy, ac nad oedd prosesau cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol. Cyfeiriwyd hefyd at 'ddiwylliant o feio' posibl a oedd yn nodwedd gyffredin ar y ward. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd ymgysylltu â'r staff er mwyn deall eu safbwyntiau'n llawn a nodi camau gwella.

Yn ystod yr arolygiad hwn nodwyd nifer o feysydd tebyg i'w gwella yr oedd angen eu gwella hefyd ar safle ysbyty arall ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ym mis Ionawr 2023. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw welliannau a nodwyd yn arolygiadau AGIC yn cael eu rhannu drwy'r bwrdd iechyd cyfan a bod yr holl wasanaethau perthnasol yn gweithredu arnynt.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd arddangos gwybodaeth i gleifion am y broses Gweithio i Wella.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu unrhyw bolisiau nad ydynt yn gyfredol er mwyn cefnogi'r staff yn eu rolau
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw broblemau TG yn cael eu datrys yn amserol. Hefyd, rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd bod cleifion bob amser yn cael bandiau adnabod claf ar adeg eu derbyn, yn enwedig ar y penwythnos.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y bwrdd 'Sut rydym yn perfformio' bob amser yn gyfredol er mwyn rhoi gwybodaeth amser real a chodi ymwybyddiaeth o unrhyw welliannau sydd eu hangen.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd pob un o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw drwy gydol yr arolygiad yn canmol y gofal a oedd yn cael ei ddarparu a'u rhyngweithio â'r staff. Gwnaethom siarad â rhai aelodau o'r teulu yn ystod amseroedd ymweld, a oedd hefyd yn rhoi adborth cadarnhaol ac yn teimlo bod eu perthnasau yn cael gofal da gan y staff ar y ward.

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd

Gwelsom rywfaint o wybodaeth yn cael ei harddangos ar y ward yn hysbysu cleifion am y grwpiau cymorth lleol sydd ar gael iddynt megis MIND Cymru a sut i ymdrin â cholli'r cof. Fodd bynnag, roedd prinder gwybodaeth berthnasol arall a oedd ar gael i'r cleifion. Ni welsom unrhyw wybodaeth i helpu cleifion i wella eu hiechyd a'u llesiant, a phrin iawn oedd y posteri yn atgoffa cleifion am bwysigrwydd golchi eu dwylo'n rheolaidd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wella faint o wybodaeth hygyrch sydd ar gael i'r cleifion yn ystod eu cyfnod ar y ward.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom ward dawel a digynnwrf a bod y staff yn rhoi gofal tosturiol mewn ffordd urddasol a phroffesiynol. Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion yn ôl eu henw ac yn esbonio beth oeddent yn ei wneud wrth roi gofal personol.

Roedd y cleifion yn gallu gwisgo eu dillad eu hunain ac roedd pob claf yn ymddangos yn lân ac yn drwsiadus. Gwelsom ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn dal i fod mor annibynnol â phosibl drwy adael i'r cleifion symud yn rhydd o amgylch y ward lle y bo modd.

Roedd y ward yn cynnwys dau fae â chwe gwely ac ystafell gofal lliniarol ar wahân â dau wely. Gwelsom y staff yn cau'r llenni wrth roi gofal i gleifion yn y baeau cymunedol er mwyn helpu i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Roedd yr ystafell gofal lliniarol yn wag yn ystod yr arolygiad, ond gwelsom ei bod yn cynnwys cyfleusterau modern a oedd yn cynnig urddas a phreifatrwydd i'r cleifion a'u

teuluoedd. Roedd yr ystafell wedi cael ei hadeiladu ar ôl ymgyrch codi arian gan y gymuned leol ac elusennau lleol ac roedd yn ased gwirioneddol i'r ward a'r gymuned leol. Roedd y gerddi hefyd wedi cael eu hadnewyddu'n ddiweddar ac roeddent yn cynnig profiad dymunol i'r cleifion eistedd yn yr awyr agored.

Roedd y cyfleusterau ymolchi ar y ward yn rhai cymunedol. Yn ystod yr arolygiad gwelsom fod yr ystafelloedd ymolchi bob amser yn lân. Fodd bynnag, roedd gennym y pryderon canlynol am y cyfleusterau ymolchi:

- Nid oedd llinynnau'r clychau galw yn cyrraedd y llawr, a oedd yn golygu y gallai'r gloch alw fod y tu hwnt i gyrraedd claf o bosibl pe bai'n cwmpo.
- Roedd y dalwyr papur toiled yn rhy bell i ffwrdd o'r toiledau, a oedd yn golygu y gallai cleifion gwmpo o bosibl wrth geisio eu cyrraedd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad a sicrhau bod y cyfleusterau ymolchi cymunedol yn ddiogel ac yn hygyrch i gleifion hŷn er mwyn cael gwared ar y risg bosibl y bydd cleifion yn cwmpo.

Gofal wedi'i deilwra at yr Unigolyn

Gwelsom dystiolaeth o rai mentrau a gyflwynwyd i helpu i ofalu am gleifion sy'n byw gyda dementia. Er enghraifft, roedd hambyrddau a chwpanau coch yn cael eu defnyddio i helpu'r staff i adnabod pa gleifion roedd angen help neu gymorth ychwanegol arnynt wrth fwyta ac yfed. Dywedwyd wrthym hefyd fod cyllid wedi cael ei neilltuo i brynu cadeiriau breichiau newydd a chlociau dementia mawr ar gyfer y ward. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod cynlluniau eraill ar gael ond nad oeddent yn cael eu defnyddio. Er enghraifft, er bod gan y ward sticeri pili pala, nid oeddent yn cael eu harddangos i roi gwybod i'r staff pa gleifion oedd yn byw gyda dementia. Hefyd, nodwyd gennym, er bod ffurflenni 'Dyma fi' ar gael, na welsom unrhyw ffurflenni wedi'u cwblhau yng nghofnodion cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn gwneud defnydd llawn o'r holl fentrau sydd ar gael ar y ward i ddarparu gofal dementia yn unol â'r canllawiau a ddisgrifiwyd yn Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia Cymru.

Amserol

Gofal amserol

Roedd gan bob gwely gloch alw er mwyn i gleifion ofyn am gymorth gan y staff pe bai angen. Gwelsom y staff yn ymateb i glychau galw yn ystod yr arolygiad mewn modd amserol. Roedd y cleifion yn cael cymorth i ddefnyddio'r toiled pan oedd angen hynny ac yn cael amser priodol er mwyn sicrhau nad oeddent yn teimlo eu bod yn gorfod rhuthro.

Dyweddod y cleifion wrthym fod eu hanghenion yn cael eu diwallu, ac y byddai'r staff yn rhoi esboniad pe bai oedi cyn ymateb i'w cloch alw.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dyweddod y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu siarad â'r staff a bod y staff wedi gwranddo arnynt.

Nid oedd unrhyw gleifion ar y ward ar adeg yr arolygiad yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, gwelsom aelodau o'r staff yn gwisgo bathodynau 'laith Gwaith' i ddangos i gleifion eu bod yn siarad Cymraeg pe dymument. Dywedwyd wrthym fod gwasanaethau cyfieithu yn cael eu ceisio a'u defnyddio pe bai cleifion yn dymuno siarad mewn ieithoedd eraill. Roedd system dolen sain ar gael i helpu pobl â phroblemau clyw. Roedd cyfran fawr o'r cleifion â cholled synhwyrdd, ac efallai y byddai'r bwrdd iechyd yn dymuno ystyried defnyddio mwy o gymhorthion synhwyrdd megis adnoddau sy'n cynnwys lluniau i helpu cleifion i ddeall a gweithredu.

Gwelsom nad oedd llawer o wybodaeth ysgrifenedig ar gael i gleifion yn ddwyieithog. Roedd diffyg arwyddion dwyieithog ar y ward ac yn yr ysbyty yn fwy cyffredinol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion ieithyddol fel rhan naturiol o'u gofal.

Gwelsom fod hysbysfwrdd 'pwy yw pwy' yn cael ei arddangos i hysbysu'r cleifion am y staff sy'n gweithio ar y ward. Fodd bynnag, nodwyd gennym mai dim ond y meddygon a'r rheolwyr ward oedd wedi'u cynnwys. Efallai y bydd y bwrdd iechyd am ystyried ychwanegu staff nyrsio a staff cymorth, er mwyn i'r cleifion ddeall mwy am bwy sy'n darparu eu gofal personol o ddydd i ddydd.

Hawliau a Chydraddoldeb

Roedd y ward yn gweithredu polisi ymweld agored, a oedd yn golygu bod ffrindiau neu deulu yn gallu ymweld â chleifion ar y ward heb fod angen trefnu ymlaen llaw. Roedd cyfleusterau priodol ar waith i'r cleifion a'u teuluoedd neu eu ffrindiau ymgysylltu. Roedd y cleifion yn cael mynediad at fannau yn yr awyr agored os oedd angen. Dywedwyd wrthym fod ystafelloedd ar gael oddi ar y ward i gynnal sgysiau preifat a thrafodaethau rhwng y staff a'r cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod amgylchedd y ward yn lân i bob golwg ac roedd yn hygyrch i bobl ag anawsterau symudedd. Roedd gwaith wedi cael ei wneud yn ddiweddar i ailgynllunio'r ward, a oedd yn cynnwys symud yr ystafell clinig i leoliad gwahanol. Roedd cynlluniau hefyd ar waith i greu gweithfan ganolog i'r nyrsys yng nghanol y ward, a fyddai'n nodwedd ychwanegol gadarnhaol.

Gwelsom fod angen gwaith atgyweirio ar rai ardaloedd yn y ward:

- Roedd gollyngiad dŵr blaenorol yn golygu bod staeniau ar rai teils nenfwd a bod angen gosod rhai newydd.
- Roedd golwg frwnt neu staenedig ar y ffenestri to yn y coridor ac roedd angen eu glanhau'n drylwyr neu osod ffenestri newydd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud i ddatrys y problemau hyn.

Roedd yn amlwg hefyd fod prinder lle storio ar y ward. Gwelsom eitemau yn cael eu storio mewn ardaloedd annisgwyl. Er enghraifft:

- Roedd y troli dadebru yn cael ei storio yn yr ystafell ddydd
- Roedd troliâu dillad gwely yn cael eu storio yn y coridor
- Gwelsom siswrn ac eilydd trydan mewn drôr yn yr olchfa.
- Roedd y troli meddyginiaethau yn cael ei storio yn swyddfa clerc y ward.

At hynny, roedd yr ystafell storio ei hun yn orlawn ac yn anniben. Gwelsom fod bocsys cardbord yn cael eu storio ar y llawr a allai achosi problem atal a rheoli heintiau o bosibl. Gwelsom hefyd fod bocsys cardbord yn cael eu pentyrru ar ben ei gilydd a oedd yn risg i ddiogelwch personol y staff. Gwnaeth un aelod o'r staff sylw tebyg yn holiaduron AGIC:

“Caiff cyflenwadau eu symud oddi ar y ward i ystafell ar y ward, a ddefnyddir fel lle gwaredu. Mae'n anodd dod o hyd i unrhyw beth sydd ei angen arnoch yn hwylus. Mae'r ail ystafell yn yr ystafell gofal lliniarol yn cael ei defnyddio fel lle gwaredu.”

Er bod ôl troed ac amgylchedd y ward yn heriol, rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r opsiynau storio er mwyn darparu digon o le storio a sicrhau bod

eitemau'n cael eu storio mewn mannau priodol. Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau bod yr ystafell storio bresennol yn cael ei thacluso fel blaenoriaeth a chyflwyno tystiolaeth i AGIC er mwyn rhoi sicrwydd.

Gwelsom fod polisi iechyd a diogelwch cyfredol ar waith a bod tystiolaeth o archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i nodi problemau er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Fodd bynnag, yn ystod ein taith o amgylch y ward nodwyd gennym fod nifer o silindrau ocsigen mawr yn cael eu storio mewn ystafell ochr oddi ar y prif goridor. Ni chawsom sicrwydd bod y trefniant storio hwn yn cydymffurfio â chanllawiau 02-01 Memorandwm Technegol Iechyd Cymru. Gwnaethom godi'r mater hwn â'r staff a chymerwyd camau i ymdrin â'n pryderon. Ceir rhagor o wybodaeth ar y camau gweithredu a gymerwyd gan y bwrdd iechyd yn [Atodiad A](#) i'r adroddiad hwn.

At hynny, nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer storio'r silindrau ocsigen wedi cael eu nodi fel problem yn ystod yr asesiad risg tân mwyaf diweddar a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023. Ni ddaeth y mater hwn o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol oherwydd y camau a gymerwyd yn ystod yr arolygiad i gael gwared ar y risg i'r cleifion a'r staff. Fodd bynnag, nid yw'n dderbyniol nad oedd y bwrdd iechyd wedi cymryd camau yn gynt ar ôl yr asesiad risg tân.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn gweithredu ar yr holl faterion ac argymhellion sy'n deillio o asesiadau risg tân mor fuan â phosibl. At hynny, rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd roi sicrwydd ei fod wedi cymryd yr holl gamau gweithredu a nodwyd yn yr asesiad risg tân a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023.

Nodwyd gennym fod y cwpwrdd glanhau heb ei gloi ar wahanol adegau yn ystod yr arolygiad er bod bysellbad ar y drws. Gwelwyd bod hylifau glanhau yn hongian ar y troli yn yr ystafell hon. Ar un achlysur, gwelsom hefyd fod dwy botel o hylif glanhau wedi cael eu gadael ar y sinc yn yr olchfa, a oedd heb ei chloi. Tynnwyd y mater hwn at sylw aelod o'r staff glanhau a gymerodd gamau ar unwaith i ddatrys y problemau. Ceir rhagor o wybodaeth ar y camau gweithredu a gymerwyd gan y bwrdd iechyd yn [Atodiad A](#) i'r adroddiad hwn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa pob aelod o'r staff am bwysigrwydd sicrhau bod drws y cwpwrdd glanhau bob amser ar glo ac nad yw deunyddiau glanhau yn cael eu gadael ar y ward pan na fydd aelod o'r staff yn eu defnyddio.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael a bod cyflenwadau dros ben yn cael eu storio'n briodol. Ymddangosai fod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran lleihau unrhyw groesheintio. Gwelsom y staff yn golchi eu

dwylo rhwng rhoi gofal i gleifion gwahanol. Hefyd, gwelwyd y staff yn defnyddio'r diheintydd dwylo yn rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth o amserlenni glanhau yn cael eu harddangos ar y wal a bod y staff yn cadw atynt yn briodol. Yn ystod ein harolygiad roedd y lloriau a'r arwynebau yn y ward yn ymddangos yn lân ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom hen focs mawr llychlyd o fagnetau a oedd wedi cael ei osod ar y llawr yn y coridor yr ymddangosai nad oedd wedi cael ei lanhau'n ddiweddar. At hynny, dywedodd y staff wrthym nad oedd y ward wedi cael ei glanhau'n drylwyr ers nifer o fisoedd oherwydd prinder staff glanhau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gael gwared ar eitemau llychlyd a sicrhau bod amgylchedd y ward gyfan yn cael ei lanhau'n drylwyr er mwyn cefnogi prosesau atal a rheoli heintiau effeithiol a sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Gwelsom fod rhestr wirio bob nos ar waith i edrych i weld a oedd cyfarpar meddygol megis comodau, mesuryddion glwcos yn y gwaed a chyffiau pwysedd gwaed yn lân ac yn gweithio'n iawn. Er bod y cyfarpar a archwiliwyd gennym yn ystod yr arolygiad yn lân yr olwg, gwelsom nad oedd sticeri yn cael eu defnyddio i hysbysu'r staff bod y cyfarpar meddygol aml dro wedi cael ei lanhau ac felly ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod sticeri dihalogi yn cael eu defnyddio i ddangos bod cyfarpar meddygol aml dro wedi cael ei lanhau a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd nifer o gleifion ar y ward yr oedd angen gofal ychwanegol yn barhaus arnynt ac roeddent yn destun arsylwadau un i un. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, ymddangosai fod problemau o ran cyfathrebu ynglŷn â chofnodion cleifion a dealltwriaeth y staff o ba gleifion roedd angen arsylwadau un i un arnynt. Er enghraifft, gwelsom un claf yn cael gofal un i un, ond roedd dogfennaeth y claf yn dangos nad oedd angen arsylwadau un i un. Nodwyd gennym hefyd fod un aelod o'r staff wedi bod yn gwneud arsylwadau un i un am fwy na dwy awr. Nid oedd yr arfer hwn yn cydymffurfio â pholisi'r bwrdd iechyd, sy'n nodi na ddylai'r staff wneud arsylwadau un i un am fwy na dwy awr.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod lefelau gofal ychwanegol yn cael eu cofnodi'n gywir yn nogfennaeth y claf a bod hyn yn cael ei gyfleu'n gywir i bob aelod o'r staff ar adeg trosglwyddo gofal. Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau bod gofal ychwanegol yn cael ei roi gan y staff mewn cydymffurfiaeth â pholisi'r bwrdd iechyd.

Roedd rhagofalon diogelwch ar waith i helpu i ddiogelu'r cleifion rhag y risg o gwmpo. Roedd asesiad o'r risg o gwmpo yn cael ei gynnal ar adeg derbyn y claf, a gwelsom dystiolaeth bod cynlluniau gofal cwmpadau yn cael eu datblygu i'r rhai roedd angen cymorth arnynt. Roedd cyfarpar a matiau atal gwmpo yn cael eu defnyddio. Dywedwyd wrthym bod asesiadau o'r risg o gwmpo yn cael eu diweddarau bob wythnos. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr asesiadau o'r risg o gwmpo yn cael eu cwblhau na'u diweddarau'n gyson. Nodwyd gennym hefyd yr ymddangosai fod matiau gwmpo wedi'u gosod wrth ymyl gwely rhai cleifion yn barhaol, hyd yn oed os oeddent yn cael eu monitro drwy arsylwadau un i un. Roedd rhai o'r matiau yn ymddangos yn eithaf uchel a gallent fod yn berygl baglu ynddyn nhw eu hunain.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau o'r risg o gwmpo yn cael eu hadolygu'n amserol a'u cwblhau'n briodol. Rydym yn argymhell y dylai'r defnydd o fatiau gwmpo yn ystod gofal ychwanegol fod yn rhan o'r adolygiad o asesiadau risg.

Gwelsom dystiolaeth bod rhai asesiadau o alluedd meddyliol yn cael eu cynnal pan oedd angen gwneud hynny. Gwelsom hefyd fod rhai cleifion yn cael asesiad o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ar ôl penderfyniad nad oedd ganddynt alluedd.

Fodd bynnag, lle y tybid bod un claf heb alluedd meddyliol o ran gofal a thriniaeth, ni allem weld asesiad ffurfiol o alluedd meddyliol nac atgyfeiriad i awdurdodi trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. Gwelsom hefyd fod asesiad ar gyfer claf arall o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid lle roedd dyddiad y cyfnod adolygu wedi mynd heibio. Gwnaethom siarad â'r staff ac ymddangosai nad oes fawr ddim dealltwriaeth o'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid na'r risgiau cysylltiedig. Roedd hyn yn achos pryder mawr o ystyried carfan y cleifion ar y ward, a oedd yn cynnwys pobl hŷn â nam gwybyddol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn cael eu cynnal yn ôl y gofyn, a'u cofnodi'n briodol yng nghofnodion cleifion er mwyn sicrhau nad yw cleifion yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon ac felly eu cadw'n gaeth yn anghyfreithlon. Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant gloywi ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a threfniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.

Rheoli gwaed

Gwnaethom siarad â'r staff a chawsom sicrwydd bod trefniadau addas ar waith i gyflenwi, storio a rhoi gwaed i gleifion yn ddiogel yn ôl yr angen. Dywedwyd wrthym nad yw'r staff yn rhoi gwaed i gleifion yn aml, a bod opsiynau amgen yn

cael eu hystyried yn gyntaf. Os bydd angen trallwysu gwaed, yna caiff y gwaed ei gyflenwi i'r ward o fanc gwaed Ysbyty Bronglais. Mae staff yr ysbyty yn cael hyfforddiant ar drallwysu gwaed yn rheolaidd ac mae'n ofynnol iddynt wneud hyfforddiant gloywi os nad ydynt wedi rhoi gwaed am gyfnod o chwe mis. Caiff llwybr Trallwysu Gwaed Cymru Gyfan ei ddilyn er mwyn sicrhau cysondeb ymhlith yr holl staff y mae angen iddynt roi gwaed i gleifion.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd cyfarpar priodol a digonol ar gael ar y ward i ddiwallu anghenion y cleifion. Roedd hyn yn cynnwys teclynnau codi, fframiau cerdded a chyfarpar monitro. Roedd y staff yn gallu disgrifio'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am gyfarpar diffygiol.

Roedd labeli wedi cael eu rhoi ar gyfarpar i ddangos pryd roedd wedi cael ei archwilio neu wedi cael gwasanaeth ddiwethaf. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn defnyddio peiriant glwcos gwaed a roddodd ddarlleniad anghywir. Defnyddiodd yr aelod o'r staff beiriant glwcos gwaed arall a roddodd ddarlleniad cywir. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd label ar y peiriant glwcos gwaed cyntaf yn dangos pryd roedd angen gwasanaeth arno.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gyfarpar meddygol yn cael gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi mesuriadau cywir. Hefyd, rhaid rhoi system ar waith i fonitro pryd mae angen rhoi gwasanaeth neu brynu cyfarpar newydd.

Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal ar y cyfarpar dadebru a brys a oedd yn cael ei gadw ar y ward. Nodwyd gennym fod y troli dadebru yn cael ei storio yn yr ystafell ddydd. Efallai y dylai'r bwrdd iechyd ystyried ai'r ystafell hon yw'r lle mwyaf priodol i storio'r troli ar y ward. Yn ystod yr arolygiad, ymddangosai fod problem gyda'r clo ar y troli; ar ddau achlysur gwahanol, roedd modd agor y droriau. Uwchgyfeiriwyd y mater hwn at uwch-aelodau o'r staff yn ystod yr arolygiad.

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad ynghylch a yw'r troli dadebru wedi cael ei atgyweirio neu a yw wedi prynu un newydd er mwyn sicrhau ei fod bob amser yn ddiogel.

Yn dilyn yr arolygiad, gwnaethom edrych ar holiaduron AGIC i'r staff. Cododd un aelod o'r staff y pryder canlynol mewn perthynas â stoc yn yr ysbyty:

“Problem arall yw bod prinder stoc drwy'r amser, ac mae fel petai'n cymryd amser hir i'r stoc ddod i mewn.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y broses o archebu a derbyn stoc ar gyfer y ward yn cael ei gwella er mwyn sicrhau bod y staff yn cael y deunyddiau, y cyflenwadau a'r cyfarpar digonol i wneud eu gwaith.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod rhai meddyginiaethau a chyffuriau a reolir yn cael eu storio yn yr ystafell clinig newydd a oedd wedi cael ei hail-leoli yn y ward. Gwelsom fod y meddyginiaethau a'r cyffuriau a reolir yn cael eu storio'n ddiogel. Gwelsom fod tymheredd yr oergell yn cael ei gofnodi bob dydd er mwyn sicrhau bod y meddyginiaethau yn cael eu storio islaw'r tymereddau storio a argymhellir. Fodd bynnag, nodwyd bod y tymheredd weithiau wedi cael ei gofnodi uwchlaw'r amrediad derbyniol. Gallai hyn effeithio ar effeithlonrwydd y meddyginiaethau a all fod yn niweidiol o bosibl i iechyd cleifion. Nid oedd yn eglur a oedd y staff wedi uwchgyfeirio'r mater na pha gamau a oedd wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod yr oergell yn addas ar gyfer storio meddyginiaethau yng ngoleuni'r tymereddau uwch a nodwyd ar y rhestr wirio. Hefyd, rhaid atgoffa'r staff am eu cyfrifoldeb i uwchgyfeirio unrhyw achosion lle mae'r tymheredd yn uwch na'r amrediad derbyniol.

Roedd cypyrddau meddyginiaeth â chlo ar gael ar y wal wrth ymyl pob gwely er mwyn cael hyd i feddyginiaeth y claf yn gyflym. Fodd bynnag, roedd gennym bryderon ynglŷn â diogelwch y trefniadau presennol i storio'r troliâu meddyginiaeth:

- Roeddent yn cael eu storio yn swyddfa clerc y ward a oedd yn golygu nad oedd yr ystafell bob amser ar glo.
- Ar un achlysur yn ystod noson gyntaf yr arolygiad, gwelsom nad oedd y troliâu wedi cael eu gosod yn sownd wrth y wal.
- Gwelsom fod meddyginiaeth paratoi'r coluddion yn cael ei storio ar hambwrdd isaf un troli meddyginiaeth a ddylai fod wedi bod dan glo y tu mewn i'r troli.
- Gwelsom hefyd fod bag o feddyginiaeth wedi cael ei adael ar yr hambwrdd isaf ar ôl rownd feddyginiaeth nad oedd wedi cael ei gadw yn y troli.

Gwnaethom godi'r problemau hyn gyda'r staff a gymerodd gamau ar unwaith. Ceir rhagor o wybodaeth ar y camau gweithredu a gymerwyd gan y bwrdd iechyd yn [Atodiad A](#) i'r adroddiad hwn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd i AGIC ynglŷn â'r camau pellach sydd wedi cael eu cymryd ers yr arolygiad i wella'r ffordd y caiff meddyginiaethau eu storio a'u cadw'n ddiogel ar y ward.

Edrychwyd ar sampl o Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth Cymru Gyfan (y siart), a nodwyd eu bod wedi cael eu cwblhau'n gywir ar y cyfan. Gwelsom fod rhai aelodau o'r staff yn gosod dotiau ar y siartiau wrth ddsbarthu meddyginiaeth ac yna'n llofnodi'r siart pan oedd y feddyginiaeth wedi cael ei rhoi i'r claf. Fodd bynnag, ni welsom ddotiau ar y siartiau meddyginiaeth bob amser a oedd yn gwneud i ni amau a oedd y siartiau'n cael eu llofnodi ar adeg rhoi'r feddyginiaeth yn hytrach na'i dosbarthu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi canllawiau clir i'r staff nyrsio ar ei ddisgwyliadau o ran sut y dylid cwblhau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth Cymru Gyfan.

Roedd y ward yn cael ei chynorthwyo gan fferylllydd a thechnegydd fferyllol a oedd yn ymweld â'r ysbyty bob wythnos.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff nyrsio yn rhoi meddyginiaeth i'r cleifion ym mhob rhan o'r ward. Gwelsom fod y staff yn cynnal gwiriadau gyda'r claf ac yn cadarnhau'r wybodaeth ar fand adnabod y claf cyn rhoi meddyginiaeth. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd pedwar claf yn gwisgo eu bandiau adnabod ac, yn lle hynny, fod y staff wedi glynu'r bandiau adnabod wrth droli gwely'r claf. Nid yw'r arfer hwn yn cydymffurfio â chanllawiau arferion gorau na pholisi'r bwrdd iechyd, ac roeddem yn pryderu y gallai arwain at gamgymeriad mawr wrth roi meddyginiaeth pe bai troli'r gwely yn cael ei symud neu ei gyfnewid am droli claf arall. Gwnaethom godi hyn ar unwaith gyda'r uwch-reolwyr, a gymerodd gamau i ddatrys y broblem a rhoi sicrwydd nad oedd yr arfer hwn yn digwydd mewn lleoliadau eraill yn ardal y bwrdd iechyd. Ceir rhagor o wybodaeth ar y camau gweithredu a gymerwyd gan y bwrdd iechyd yn [Atodiad A](#) i'r adroddiad hwn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad ar y camau a gymerwyd ers yr arolygiad i sicrhau nad yw'r arfer o dynnu bandiau adnabod cleifion wedi parhau.

Trafododd y staff y gweithdrefnau a oedd ar waith i helpu i adnabod a rheoli achosion o sepsis. Dywedwyd wrthym fod sgôr o dri neu'n uwch o dan y Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol yn gofyn am uwchgyfeirio achos ar unwaith er mwyn cael diagnosis o sepsis o bosibl. Fodd bynnag, gwelsom enghraifft o sgôr o dri o dan y Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol nad oedd wedi cael ei huwchgyfeirio i bob golwg. Ar ôl ei ailgyfrifo, lleihaodd y sgôr i ddau a oedd yn gostwng lefel y risg bosibl o sepsis.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod sgoriau o dri neu'n uwch o dan Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol yn cael eu huwchgyfeirio ar unwaith er mwyn sicrhau bod achosion posibl o sepsis yn cael eu rheoli'n briodol ac yn amserol.

Maeth a hydradu

Gwelsom fod y ddarpariaeth o fwyd a diod i'r cleifion yn cael ei rheoli'n dda ar y cyfan. Caiff yr holl brydau eu coginio'n ffres ar y safle bob dydd, ac roeddent yn edrych yn dda ac yn flasus. Roedd prosesau cyfathrebu da rhwng y staff nyrsio a'r staff arlwyo. Roedd y staff yn defnyddio'r cyfarfodydd trosglwyddo gofal dyddiol i gadarnhau unrhyw ofynion deietegol neu ofynion am ddeiet meddal.

Roedd hylifau ar gael i'r cleifion, gyda jygiau dŵr wrth erchwyn y gwely. Gwelsom y prydau amser cinio'n cael eu gweini a gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf, bwylllog ac urddasol gan roi digon o amser iddynt gnoi a llyncu eu bwyd. Hefyd, gwelsom y staff yn annog y cleifion a'u helpu i fwyta'n annibynnol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella:

- Gwelsom nad oedd un claf wedi cael asesiad maeth 48 awr ar ôl cael ei dderbyn i'r ysbyty.
- Roedd un claf wedi cael ei asesiad maeth ac roedd angen i'w siart fwyd gael ei chwblhau am dridiau ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty. Fodd bynnag, ni allem weld unrhyw dystiolaeth bod y siart fwyd wedi cael ei chwblhau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael eu hasesiadau maeth yn amserol ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty a bod siartiau bwyd yn cael eu cwblhau pan fo'u hangen.

Hefyd, gwnaeth un aelod o'r staff y sylw canlynol mewn perthynas ag amseroedd bwyd:

“Does dim opsiynau iach yn y prydau bwyd i'r cleifion fel ffrwythau ffres.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrrio ar yr adborth hwn a phenderfynu a yw'r cleifion yn cael prydau bwyd maethlon, amrywiol a chytbwys.

Cofnodion cleifion

Yn ystod yr arolygiad, edrychwyd ar gofnodion tri chlaf. Gwelsom fod y cofnodion yn gyfredol a'u bod yn cael eu cwblhau ar ôl gofal a thriniaeth ar y cyfan. Roedd y cleifion yn cael eu hasesu o ran eu croen a'r risg o friwiau pwysu ar adeg eu derbyn i'r ysbyty. Roedd tystiolaeth bod y cleifion yn cael eu symud yn aml drwy'r dydd a'r nos a bod manau pwysu yn cael eu monitro'n barhaus. Gwelsom fod poen yn cael ei fesur a bod y staff yn gweithredu ac yn ei reoli'n briodol i'r cleifion. Roedd gofal cleifion yn cael ei gynllunio mewn ffordd a oedd yn hybu annibyniaeth.

Nodwyd gennym, er bod gwerthusiadau o ofal gan weithwyr proffesiynol meddygol wedi cael eu llofnodi a'u dyddio, nad oedd unrhyw dystiolaeth ynglŷn â phryd roedd y cofnod wedi cael ei lofnodi. Efallai y dylai'r bwrdd iechyd ystyried ychwanegu maes at yr adnodd asesu electronig os oes modd er mwyn cofnodi amser cofnodion er cyflawnder.

Er i ni weld dystiolaeth o gynllunio i ryddhau cleifion, ni welsom dystiolaeth wedi'i dogfennu bob amser bod y claf wedi cael ei werthuso a'i bennu'n ddigon iach yn feddygol i'w ryddhau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gofnodi'n gywir werthusiadau o b'un a yw'r cleifion yn ddigon iach i'w rhyddhau'n feddygol yng nghofnod cleifion.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom dystiolaeth o gyfraniad cadarnhaol gan nifer o wasanaethau er mwyn helpu i symud cleifion yn effeithlon i mewn i'r ysbyty ac allan o'r ysbyty. Mae prosesau amserol ac effeithlon ar gyfer rhyddhau a derbyn cleifion yn hollbwysig, ac ar yr adegau hyn yn enwedig y mae cleifion yn agored i niwed. Gwelsom fod tîm trosglwyddo cleifion canolog y bwrdd iechyd yn helpu i reoli llif cleifion, ar y cyd â'r staff nyrsio a meddygon teulu lleol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Cymysg fu ymatebion y staff i holiadur AGIC o ran llawer o agweddau ar eu profiadau o weithio yn yr ysbyty. Roedd y mwyafrif o'r staff yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir i gleifion ac yn teimlo y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan yr ysbyty iddynt hwy eu hunain, eu ffrindiau neu deulu. Roedd y staff hefyd yn teimlo bod cleifion yn cael eu hysbysu am eu gofal ac yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal. Roedd rhai o'r sylwadau cadarnhaol yn cynnwys:

“Mae'r staff yn yr ysbyty hwn yn gweithio'n galed iawn i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Mae llawer o'r staff wedi gweithio yn yr ysbyty cymunedol hwn am ddegawdau ac maent yn teimlo cyfrifoldeb mawr tuag at y gymuned y mae'r ysbyty hwn wedi'i lleoli ynddi.”

“Ar y cyfan, rwy'n fodlon iawn ar fy amgylchedd gwaith.”

“Gofal lliniarol ardderchog.”

Fodd bynnag, roedd ymatebion yn fwy negyddol gan y staff wrth drafod adnoddau staffio a phresenoldeb uwch-reolwyr. Manylir ar yr agweddau hyn ar eu profiadau yn adrannau canlynol yr adroddiad.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Er i'r aelodau o'r staff a gwblhaodd holiadur roi adborth cadarnhaol ar y cyfan ynglŷn â'u rheolwyr llinell uniongyrchol, roedd yr ymatebion yn llai cadarnhaol o ran uwch-reolwyr. Roedd y mwyafrif o'r staff yn teimlo nad oedd uwch-reolwyr yn weladwy ac nad oedd prosesau cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol. Roedd y staff hefyd yn teimlo nad oedd yr uwch-reolwyr yn ymrwymedig i ofal cleifion. Cawsom y sylwadau canlynol gan rai aelodau o'r staff yn yr holiaduron hefyd:

*“Mae'r uwch-reolwyr yn anghwrtais ac yn ein dibrisio fel tîm ac fel ysbyty. Os bydd y prif nyrsys i ffwrdd, byddwn i'n ofni troi at unrhyw un arall.
“Wrth ein cyfweld am bethau blaenorol, maen nhw wedi ein beio ni ac wedi gwneud i ni deimlo'n ansicr yn ein swyddi.”*

“Dyw uwch-reolwyr na'r uwch brif nyrs ddim ar gael pan fydd angen i'r staff gysylltu â nhw am eu bod naill ai'n gweithio gartref, mewn cyfarfodydd, ar wyliau blynyddol ar yr un pryd neu, yn syml, eu bod nhw'n codi eu ffôn a'i roi i lawr yn syth am nad ydyn nhw am siarad â'r staff ar y ward! O ganlyniad, mae'r staff yn teimlo'n amddifad heb neb i ddatrys problemau sydd y tu hwnt i'w cyfrifoldebau.”

Cawsom adborth hefyd gan y staff yn ystod yr arolygiad a oedd yn awgrymu bod 'diwylliant o feio' yn beth cyffredin drwy'r ward gyfan, a bod y staff wedi cael bygythiad yn flaenorol y byddai'n rhaid iddynt dalu am gyfarpar meddygol wedi torri eu hunain.

Rydym yn ymwybodol bod yr uwch-reolwyr wedi gwneud ymdrechion i ymgysylltu'n fwy â'r staff sy'n gweithio ar y ward yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, mae'r adborth a gafwyd gan y staff yn dangos bod angen gwneud mwy o gynnydd o hyd yn hyn o beth.

Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrrio ar yr adborth hwn ac ymgysylltu â'r staff er mwyn cael dealltwriaeth lawn o'u safbwyntiau a nodi camau gwella, yn enwedig mewn perthynas â phresenoldeb uwch-reolwyr a gallu'r staff i fynd atynt ac o ran cael gwared ar y 'diwylliant o feio' y cyfeiriodd y staff ato.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom nad oedd rhai o bolisiau'r bwrdd iechyd yn gyfredol mwyach. Roedd y rhain yn cynnwys polisiau Gweithio i Wella a Rheoli Pryderon, Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a Gofal Ychwanegol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu unrhyw bolisiau nad ydynt yn gyfredol er mwyn cefnogi'r staff yn eu rolau.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod lefelau staffio yn ymdddangos yn briodol i sicrhau diogelwch cleifion ar y ward. Fodd bynnag, er bod y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod yn gallu bodloni'r gofynion croes a oedd yn cystadlu am eu hamser yn y gwaith, dywedodd y mwyafrif o'r staff hefyd nad oedd digon o staff iddynt wneud eu gwaith yn iawn. Cawsom y sylwadau canlynol hefyd mewn perthynas ag adnoddau staffio:

“Nid yw'r lefel staffio ar y ward yn briodol bob amser a gall fod yn anniogel. Nid yw rotâu staff yn cael eu llunio'n effeithlon gan fod prinder staff ar rai diwrnodau a gormod o staff ar ddiwrnodau eraill.”

“Mae'r defnydd o staff asiantaeth yn cynyddu'n raddol. Yna, am nad ydynt yn staff rheolaidd rydych bob amser gyda rhywun sydd heb weithio yno o'r blaen, felly diffyg parhad i'r cleifion a'r tîm staff. Staff asiantaeth ddim yn ymddangos ar gyfer sifft nos felly mae'n rhaid i chi aros ymlaen nes bod rhywun yn dod i mewn. Dyw staff asiantaeth ddim yn cael manylion mewngofnodi ar y cyfrifiadur, felly rhaid i chi nodi eu gwybodaeth hwythau hefyd, sy'n dyblu'ch gwaith.”

Mae'r canfyddiadau hyn yn ymddangos yn gyson â'r heriau cenedlaethol o ran adnoddau staffio yn y GIG Mae rheoli rotâu yn effeithiol yn hollbwysig hefyd er mwyn sicrhau bod nifer priodol o staff ar gael ar gyfer pob sifft. Dywedwyd wrthym fod aelodau rheolaidd o staff asiantaeth yn cael eu trefnu lle bynnag y bo modd er mwyn sicrhau parhad gofal i'r cleifion.

Fodd bynnag, rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrrio ar yr adborth hwn a rhoi sicrwydd i AGIC bod nifer y staff ar gyfer y ward yn briodol o hyd a bod modd cyflenwi staff heb ddefnyddio staff asiantaeth yn rheolaidd.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith er mwyn i'r uwch-staff fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Gwelsom fod cydymffurfiaeth gyffredinol o 82 y cant ymhlith y staff. Roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod yn cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl. Efallai y dylai'r bwrdd iechyd ystyried yr awgrymiadau ar gyfer hyfforddiant ychwanegol a fyddai'n ddefnyddiol ym marn y staff wrth ymgymryd â'u rolau:

“Hoffwn gael hyfforddiant manylach ar yr asesiadau a'r atgyfeiriadau ar-lein newydd.”

“Byddai'n ddefnyddiol cael mwy o hyfforddiant ar iechyd meddwl, gwrthdaro/ymddygiad ymosodol a chleifion trawsryweddol.”

Gwelsom fod 75 y cant o'r staff wedi cael eu hadolygiadau datblygu o arfarniadau o berfformiad ar adeg yr arolygiad. Cadarnhaodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom fod gwybodaeth yn cael ei harddangos a oedd yn hysbysu cleifion ynglŷn â sut i godi pryder gydag aelodau o'r staff ar y ward. Fodd bynnag, ni allem weld gwybodaeth am y broses Gweithio i Wella i gleifion godi cwyn pe na baent yn dymuno siarad â'r staff yn uniongyrchol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd arddangos gwybodaeth i gleifion am y broses Gweithio i Wella.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym fod adborth gan gleifion yn cael ei gasglu. Fodd bynnag, dywedodd y staff hefyd nad ydynt yn cael diweddariadau rheolaidd ar ganlyniadau adborth cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd hysbysu pob aelod o'r staff o'r hyn a ddysgwyd drwy adborth cleifion er mwyn helpu i gyflwyno unrhyw welliannau i ofal cleifion a nodwyd.

Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cael hyfforddiant i'w helpu i ddeall eu cyfrifoldebau o dan y rheoliadau ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Cawsom rai sylwadau yn yr holiaduron staff mewn perthynas â phroblemau gyda'r dechnoleg ddigidol yn yr ysbyty:

“Mae TG bob amser yn broblem ac mae'n cymryd mor hir i'w hunioni nes eich bod yn amharod i roi gwybod oherwydd rydych yn gwybod y byddwch ar y ffôn am awr na allwch fforddio ei cholli. Felly ni roddir gwybod am broblem nes bod rhywbeth wedi torri, sy'n anghyfleus.”

“Mae'r argraffydd yn datgysylltu oddi wrth y cyfrifiaduron, ar benwythnosau, does dim modd argraffu breichledi na labeli adnabod.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw broblemau TG yn cael eu datrys yn amserol. Hefyd, rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd bod cleifion bob amser yn cael bandiau adnabod claf ar adeg eu derbyn, yn enwedig ar y penwythnos.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom nifer o archwiliadau yn cael eu cynnal i fonitro cydymffurfiaeth ag arferion gorau, a bod cyfarfodydd craffu yn cael eu cynnal i drafod materion megis cwmpadau a briwiau pwyso. Dywedwyd wrthym fod gwaith dilynol yn cael ei wneud ar y canfyddiadau hyn a'r gwersi a ddysgwyd, a bod y camau gweithredu a nodwyd yn cael eu rhannu â'r staff.

Yn ystod yr arolygiad gwnaethom nifer o argymhellion ar gyfer gwella a oedd eisoes wedi cael eu nodi mewn arolygiad blaenorol o ward ysbyty ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ym mis Ionawr 2023. Felly, mae'n siomedig nodi nad yw'r hyn a ddysgwyd o'r arolygiad hwnnw wedi cael ei rannu â phob un o wasanaethau'r bwrdd iechyd ac nad ydynt wedi gweithredu arno.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw welliannau a nodwyd yn arolygiadau AGIC yn cael eu rhannu drwy'r bwrdd iechyd cyfan a bod yr holl wasanaethau perthnasol yn gweithredu arnynt er mwyn dangos ymrwymiad ehangach i weithredu ar yr hyn a ddysgir.

Yn ystod ein taith gwelsom fod bwrdd 'Sut rydym yn perfformio' yn cael ei arddangos yn y coridor a oedd yn rhoi metrigau perfformiad diogelwch ar gyfer y ward megis nifer y cwmpïadau a briwiau pwyso bob mis. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y bwrdd yn gyfredol a'i fod yn arddangos y data ar gyfer mis Awst 2023.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y bwrdd 'Sut rydym yn perfformio' bob amser yn gyfredol er mwyn rhoi gwybodaeth amser real a chodi ymwybyddiaeth o unrhyw welliannau sydd eu hangen.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Gwelsom fod nifer o sefydliadau a gwasanaethau, megis gwasanaethau ailalluogi, gofal iechyd parhaus a gwasanaethau cymdeithasol, yn chwarae rhan yn y broses o gynllunio i ryddhau cleifion. Roedd hyn hefyd wedi'i ddogfennu'n dda yng nghofnodion y cleifion.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y staff yn gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr cleifion lle y bo modd er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau. Roedd cyfarfodydd er lles pennaf yn cael eu cynnal ac roedd teuluoedd a gofalwyr yn cael eu gwahodd i ddod i gyfarfodydd wythnosol y tîm aml-ddisgyblaethol ynghyd â'r gweithwyr proffesiynol meddygol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael eu cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar ran y claf.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym fod nifer o silindrau ocsigen mawr yn cael eu storio mewn ystafell ochr oddi ar y prif goridor. Ni chawsom sicrwydd bod y trefniant storio hwn yn cydymffurfio â chanllawiau 02-01 Memorandwm Technegol Iechyd Cymru. Er enghraifft, nid oedd unrhyw arwydd rhybuddio ar y drws yn nodi bod ocsigen yn cael ei storio yn yr ystafell.	Roedd yn achos pryder i ni nad oedd y staff na'r cleifion yn cael eu diogelu'n llawn rhag y risgiau bod ocsigen yn cael ei storio'n amhriodol.	Gwnaethom godi ein pryderon gyda rheolwr y ward.	Cafodd y silindrau ocsigen eu symud o'r ystafell storio i leoliad allanol ar safle ehangach yr ysbyty erbyn diwedd yr arolygiad
Ar wahanol adegau yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym nad oedd drws y cwpwrdd glanhau wedi'i	Roeddem yn pryderu y gallai cleifion gael gafael ar ddeunyddiau peryglus am	Gwnaethom godi ein pryderon gydag aelod o'r staff glanhau.	Cafodd yr hylifau glanhau eu symud i leoliad diogel, a chawsom sicrwydd y byddai'r aelodau o'r

<p>gloi.Ar ôl mynd i mewn i'r cwpwrdd, gwelsom fod hylifau glanhau yn hongian ar y troli.At hynny, gwelsom hefyd fod dwy botel o hylif glanhau wedi cael eu gadael ar y sinc yn yr olchfa.</p>	<p>nad oeddent yn cael eu storio'n ddiogel.</p>		<p>staff yn cael eu hatgoffa am bwysigrwydd sicrhau bod deunyddiau glanhau yn cael eu cadw dan glo ac y dylai'r cwpwrdd glanhau fod dan glo drwy'r amser.</p>
<p>Ar ddiwrnod olaf yr arolygiad, gwelsom fod meddyginiaeth paratoi'r coluddion yn cael ei storio ar hambwrdd isaf troli meddyginiaeth. Gwelsom hefyd fod bag o feddyginiaeth wedi cael ei adael ar yr hambwrdd isaf ar ôl rownd feddyginiaeth nad oedd wedi cael ei gadw yn y troli.</p>	<p>Roedd yn achos pryder i ni y gallai cleifion gymryd meddyginiaeth nad oedd wedi'i bwriadu ar eu cyfer. Roedd yn achos pryder i ni hefyd y gallai rhywun gymryd neu ymyrryd â meddyginiaeth am nad oedd wedi'i chadw dan glo.</p>	<p>Gwnaethom godi ein pryderon gyda'r rheolwr gwasanaethau cymunedol.</p>	<p>Cafodd y feddyginiaeth ei rhoi dan glo yn y troli ar unwaith a chawsom sicrwydd hefyd y byddai'r staff yn cael eu hatgoffa am eu cyfrifoldebau i gadw meddyginiaeth dan glo bob amser.</p>
<p>Yn ystod yr arolygiad, gwelsom bedwar claf nad oeddent yn gwisgo bandiau adnabod. Yn lle hynny, roedd y staff wedi glynu eu bandiau adnabod wrth droli eu gwely.</p>	<p>Roedd yn achos pryder i ni y gallai'r staff o bosibl roi meddyginiaeth a fwriadwyd ar gyfer un claf i glaf arall drwy gamgymeriad pe bai troli'r gwely wedi cael ei symud neu ei gyfnewid am droli claf arall.</p>	<p>Gwnaethom godi ein pryderon gyda'r rheolwr gwasanaethau cymunedol.</p>	<p>Cafodd bandiau adnabod y cleifion eu tynnu oddi ar droli eu gwely a'u gosod yn ddiogel ar y pedwar claf. Cawsom sicrwydd hefyd nad oedd yr arfer hwn yn beth cyffredin ar wardiau ysbyty eraill yn y bwrdd iechyd.</p>

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: **Ward Graham Davies**

Dyddiad yr arolygiad: **09, 10 a 11 Hydref 2023**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: **Ward Graham Davies**

Dyddiad yr arolygiad: **09, 10 a 11 Hydref 2023**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd digon o wybodaeth berthnasol ar gael i'r cleifion.	Rhaid i'r bwrdd iechyd wella faint o wybodaeth hygyrch sydd ar gael i'r cleifion yn ystod eu cyfnod ar y ward.	Bydd gwybodaeth am Addysg Iechyd, cymorth a chyfeiriadau gan sefydliadau yn y trydydd sector a Gweithio i Wella ar gael ar lefel y ward i'r cleifion a'u hymwelwyr ynghyd â chyfeiriadau at yr awdurdod lleol.	Rheolwr y Ward	Mawrth 2024 Gwybodaeth Gweithio i Wella wedi'i chyflawni ym mis Tachwedd 2023.
Ni chawsom sicrwydd bod y risg y gallai cleifion gwmpo wedi cael ei dileu yn y cyfleusterau ymolchi cymunedol.	Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad a sicrhau bod y cyfleusterau ymolchi cymunedol yn ddiogel ac yn hygyrch i gleifion.	Bydd adolygiad ar y cyd â'r adran ystadau ynglŷn â'r cynllun presennol a'r potensial i'w wella	Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol ar y cyd â'r arweinydd Iechyd a Diogelwch.	Mawrth 2024

		Bydd staff Iechyd a Diogelwch yn cael eu cynnwys i helpu i ad-drefnu'r ward lle y bo angen		
Gwelsom fod mentrau sy'n deall dementia ar gael yn yr ysbyty ond nad oeddent yn cael eu defnyddio fel mater o drefn.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn gwneud defnydd llawn o'r holl fentrau sydd ar gael ar y ward i ddarparu gofal dementia yn unol â'r canllawiau a ddisgrifiwyd yn Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia Cymru.	<p>Bydd dogfennaeth Dyma fi yn cael ei hymgorffori fel rhan o ddiwylliant y tîm a'i defnyddio i gynllunio gofal i gefnogi ac adlewyrchu gwaith cynllunio gofal cleifion.</p> <p>Bydd hyrwyddwr yn cael ei nodi a bydd yn ofynnol iddo/iddi fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y siarter.</p> <p>Bydd Cynllun Pili Pala yn cael ei roi ar waith ar lefel ward.</p> <p>Mae prosiect ar y ward i wella'r amgylchedd gofal a'r ardd dementia yn mynd rhagddo.</p> <p>Bydd adroddiadau drwy gyfarfod grŵp iechyd a</p>	Rheolwr y Ward Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Ebrill 2024

		diogelwch gwasanaethau cymunedol drwy eithriad.		
Nid oedd llawer o wybodaeth ar gael i gleifion yn ddwyieithog. Roedd diffyg arwyddion dwyieithog ar y ward ac yn yr ysbyty yn fwy cyffredinol.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion ieithyddol fel rhan naturiol o'u gofal.	<p>Mae adolygiad o arwyddion dwyieithog wedi cael ei gynnal ac maent wedi cael eu cyrchu.</p> <p>Mae cynnig rhagweithiol y Gymraeg ar waith ac mae data olrhain ac archwilio anghenion y Gymraeg nad ydynt yn cael eu diwallu wedi cael eu datblygu drwy grŵp Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia ar gyfer proses adrodd deirgwaith y flwyddyn.</p>	Rheolwr y Ward Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol Arweinydd Dementia	Ebrill 2024
Gwelsom fod staeniau ar rai teils nenfwd a bod angen gosod rhai newydd. Roedd golwg frwnt neu staenedig ar y ffenestri to yn y coridor ac roedd angen eu glanhau'n drylwyr neu osod ffenestri newydd.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud i ddatrys y problemau hyn.	<p>Bydd angen gwaith atgyweirio/adnewyddu.</p> <p>Bydd angen cyflwyno ffurflen cais am brosiect.</p> <p>Caiff hyn ei uwchgyfeirio drwy gyfarfod Grŵp Gweithredol GGC at ddibenion goruchwyllo a monitro.</p>	Rheolwr y ward Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Mai 2024

<p>Roedd prinder lle storio ar y ward ac roedd eitemau yn cael eu storio mewn manau amhriodol. Roedd yr ystafell storio hefyd yn orlawn ac yn anniben, gyda bocsys cardbord yn cael eu storio ar y llawr a'u pentyrru ar ben ei gilydd.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r opsiynau storio er mwyn darparu digon o le storio a sicrhau bod eitemau'n cael eu storio mewn manau priodol. Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau bod yr ystafell storio bresennol yn cael ei thacluso fel blaenoriaeth a chyflwyno tystiolaeth i AGIC er mwyn rhoi sicrwydd.</p>	<p>Adolygiad o'r lle storio presennol ar y ward.</p> <p>Trafodaethau â'r adrannau sy'n defnyddio lle storio ar y ward ar hyn o bryd i ddod o hyd i drefniadau amgen - mae hyn wedi cael ei gwblhau.</p>	<p>Rheolwr y ward</p>	<p>Cwblhawyd Hydref 2023</p>
<p>Nid oedd y bwrdd iechyd wedi gweithredu'n amserol i leihau'r risg i'r cleifion a'r staff o ganlyniad i storio silindrau ocsigen ar y ward.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn gweithredu ar yr holl faterion ac argymhellion sy'n deillio o asesiadau risg tân mor fuan â phosibl.</p> <p>At hynny, rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd roi sicrwydd ei fod wedi cymryd yr holl gamau gweithredu a nodwyd yn yr asesiad risg tân a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023.</p>	<p>Mae'r silindrau ocsigen wedi cael eu storio mewn lleoliad priodol arall ar ôl cynnal asesiad risg a chydymffurfio â'r camau storio iechyd a diogelwch cywir.</p>	<p>Rheolwr y ward</p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol</p>	<p>Cwblhawyd Hydref 2023</p>
<p>Gwelsom hen focs mawr llychlyd o fagnetau a oedd wedi cael ei osod ar y llawr yn y coridor. Dywedodd y staff wrthym hefyd nad oedd y</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd gael gwared ar eitemau llychlyd a sicrhau bod amgylchedd y ward gyfan yn cael ei lanhau'n drylwyr er mwyn cefnogi prosesau atal a rheoli heintiau</p>	<p>Cafodd y rhain eu symud a'u gwaredu yn fuan ar ôl yr ymweliad.</p>	<p>Rheolwr y ward</p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol</p>	<p>Cwblhawyd Hydref 2023</p>

<p>ward wedi cael ei glanhau'n drylwyr ers nifer o fisoedd.</p>	<p>effeithiol a sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.</p>	<p>Adolygiad o'r holl ardaloedd lle roedd cyfarpar nad oedd ei angen mwyach wedi cael ei waredu.</p> <p>Mae'r bwrdd iechyd yn bwriadu prynu system glanhau trylwyr a chynnal rhaglen dreigl o lanhau yn rheolaidd. Aros am Weithdrefn Weithredu Safonol a manylion.</p> <p>Mae Gweithdrefn Weithredu Safonol ynglŷn â glanhau'r ward wedi cael ei rhoi ar waith ac mae'r staff wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gofyniad i sicrhau bod hyn yn cael ei gwblhau ar lefel ward. (Rhoddir hyn ar waith drwy'r bwrdd iechyd cyfan).</p> <p>Mae dangosfwrdd ac ap yn cael eu ceisio er mwyn sicrhau bod yr holl ddata archwilio yn hygyrch a bod atebolrwydd.</p>	<p>Pennaeth Nyrzio</p>	<p>Ebrill 2024</p> <p>Cwblhawyd Hydref 2023</p> <p>Mawrth 2024</p>
---	---	---	------------------------	--

<p>Er bod y cyfarpar a archwiliwyd gennym yn ystod yr arolygiad yn lân yr olwg, nid oedd sticeri yn cael eu defnyddio i hysbysu'r staff bod y cyfarpar meddygol aml dro wedi cael ei lanhau.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod sticeri dihalogi yn cael eu defnyddio i ddangos bod cyfarpar meddygol aml dro wedi cael ei lanhau a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.</p>	<p>Defnydd cyson o sticeri gwyrdd i nodi bod cyfarpar wedi cael ei lanhau.</p> <p>Mae'r sticeri gwyrdd presennol yn cael eu hadolygu oherwydd eu cynnwys plastig a'u cynaliadwyedd. Fodd bynnag, cânt eu defnyddio a chaiff hapwiriadau eu cynnal nes bod ateb angen wedi cyrraedd (wedi'i archebu ar hyn o bryd).</p>	<p>Rheolwyr ward</p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Atal a Rheoli Heintiau</p> <p>Adrodd ar eithriadau drwy gyfarfod ansawdd a diogelwch GGC.</p>	<p>Cwblhawyd Hydref 2023</p>
<p>Ymddangosai fod problemau o ran cyfathrebu ynglŷn â chofnodion cleifion a dealltwriaeth y staff o ba gleifion roedd angen arsylwadau un i un arnynt. Nodwyd gennym hefyd fod un aelod o'r staff wedi bod yn gwneud arsylwadau un i un am fwy na dwy awr.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod lefelau gofal ychwanegol yn cael eu cofnodi'n gywir yn nogfennaeth y claf a bod hyn yn cael ei gyfleu'n gywir i bob aelod o'r staff ar adeg trosglwyddo gofal. Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau bod gofal ychwanegol yn cael ei roi gan y staff mewn cydymffurfiaeth â pholisi'r bwrdd iechyd.</p>	<p>Bydd y broses drosglwyddo a briffiadau diogelwch yn cael eu hadolygu i'w rhoi ar waith ar y ward er mwyn sicrhau proses glir ac adnabyddadwy.</p> <p>Bydd pob ward yn sicrhau bod polisi arsylwi ychwanegol GPN065 yn cael ei roi ar waith, a chaiff y staff ei gylchdroi wrth roi gofal un i un.</p>	<p>Rheolwr y ward</p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Cwblhawyd Hydref 2023</p>

		Caiff hapwiriadau eu cynnal bob wythnos er mwyn sicrhau bod staff yn cael ei gylchdroi pan roddir gofal un i un yn unol â'r polisi.		
Gwelsom nad oedd asesiadau o'r risg o gwmpo yn cael eu cwblhau na'u diweddarau'n gyson. Nodwyd gennym hefyd yr ymddangosai fod matiau cwmpo wedi'u gosod wrth ymyl gwely rhai cleifion yn barhaol, ni waeth a oedd eu hangen ai peidio.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau o'r risg o gwmpo yn cael eu hadolygu'n amserol a'u cwblhau'n briodol. Rydym yn argymhell y dylai'r arfer o ddefnyddio matiau cwmpo yn ystod gofal ychwanegol fod yn rhan o'r adolygiad o asesiadau risg.	<p>Mae'r matiau cwmpo wedi cael eu gwaredu o arfer clinigol fel mater o reol, yn unol â'r canllawiau i Gymru gyfan. Dim ond ar wardiau lle mae ystafelloedd ochr sengl y caiff y rhain eu defnyddio ac ym mhob ardal arall bydd angen i'r tîm amlddisgyblaethol eu trafod cyn eu cyflwyno er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol.</p> <p>Mae'r tîm nyrsio wedi cael ei atgoffa o'r gofyniad i gynnal asesiad amserol o'r risg o gwmpo a'i adolygu, yn dibynnu ar anghenion y claf.</p> <p>Nodwyd hyfforddiant ar gwmpo i'w ychwanegu at</p>	Rheolwr y Ward Arweinydd Cwmpo Pennaeth Nyrsio	<p>Cwblhawyd Hydref 2023</p> <p>Cwblhawyd Hydref 2023</p>

		y matrices hyfforddiant gorfodol ar gyfer wardiau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i gleifion mewnol.		Mawrth 2024
Tybid nad oedd gan un claf alluedd meddyliol ond nid oedd unrhyw dystiolaeth o gais i wneud trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid na bod asesiad ar waith. Gwelsom hefyd nad oedd asesiad ar gyfer claf arall o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn gyfredol. Gwnaethom siarad â'r staff ac ymddangosai nad oes fawr ddim dealltwriaeth o'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid na'r risgiau cysylltiedig.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn cael eu cynnal yn ôl y gofyn, a'u cofnodi'n briodol yng nghofnodion cleifion er mwyn sicrhau nad yw cleifion yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon ac felly eu cadw'n gaeth yn anghyfreithlon. Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant gloywi ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a threfniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.	Bydd y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid/Diogelu yn cyflwyno mwy o hyfforddiant i'r staff clinigol. Adolygiad o'r ddogfennaeth a ddefnyddir ar y ward. Gwella cymhwysedd o ran y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Budd Pennaf. Tîm i gyrraedd cydymffurfiaeth o 85%. Gwell cydymffurfiaeth â phasbortau diogelu lefel 3.	Rheolwr y ward Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol Arweinydd Diogelu.	Ebrill 2024
Ymddangosai fod un o'r peiriannau glwcos gwaed yn rhoi darlleniadau anghywir ond nid oedd label arno yn	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gyfarpar meddygol yn cael gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi mesuriadau cywir. Hefyd, rhaid rhoi system ar	Datryswyd hyn ar unwaith. Bydd rheolwr y ward yn sicrhau bod y tîm yn ymwybodol o'r gwiriadau a sut	Rheolwr y ward Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Cwblhawyd Hydref 2023 Adroddiadau misol ar

<p>dangos pryd roedd angen gwasanaeth arno.</p>	<p>waith i fonitro pryd mae angen rhoi gwasanaeth neu brynu cyfarpar newydd.</p>	<p>i uwchgyfeirio materion a'r cyfrifoldeb am y rhain.</p> <p>Mae rheolwr y ward yn gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y rheoli cyfarpar, gan gynnwys rhoi gwasanaeth iddo.</p>	<p>Adrodd ar eithriadau drwy'r grŵp ansawdd a diogelwch a grŵp profi adeg rhoi gofal.</p>	<p>eithriadau pan fydd methiant i gydymffurfio.</p>
<p>Yn ystod yr arolygiad, roedd modd agor droriau uchaf y troli dadebru.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad ynghylch a yw'r troli dadebru wedi cael ei atgyweirio neu a yw wedi prynu un newydd er mwyn sicrhau ei fod bob amser yn ddiogel.</p>	<p>Nodwyd diffyg achlysurol gan y Pennaeth Nyrsio a'r Arolygydd yn ystod yr ymweliad.</p> <p>Mae uned newydd wedi cael ei harchebu. Caiff yr uned ei harchwilio ddwywaith y dydd er mwyn sicrhau bod y droriau'n ddiogel.</p> <p>Bwriedir adleoli'r troli ar ôl y gwaith adnewyddu.</p>	<p>Rheolwr y ward</p>	<p>Cwblhawyd Hydref 2023</p>
<p>Dywedodd aelod o'r staff wrthym fod prinder stoc yn aml ar y ward a'i bod yn cymryd amser hir cyn bod y stoc yn cyrraedd.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y broses o archebu a derbyn stoc ar gyfer y ward yn cael ei gwella er mwyn sicrhau bod y staff yn cael y deunyddiau, y cyflenwadau a'r cyfarpar digonol i wneud eu gwaith.</p>	<p>Mae BIAP wrthi'n adolygu lle storio canolog.</p> <p>Mae problemau caffael o ran cyfarpar mwy o faint wedi</p>	<p>Rheolwr y ward</p>	<p>Cwblhawyd Rhagfyr 2023</p>

		<p>codi o bryd i'w gilydd ac maent wedi cael eu datrys.</p> <p>Caiff lefelau stoc cyffredinol ar y ward eu monitro a chaiff stoc ei chylchdroi, ac mae proses Oracle effeithlon ar waith heb unrhyw oedi mewn prosesau cymeradwyo. Mae'r broses yn cynnwys system wrth gefn pe bai cymeradwywr yn absennol.</p> <p>Bydd diweddariad i'r ward ar brosesau archebu yn cael ei roi yn ystod cyfarfod nesaf y ward er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol ohonynt.</p>		
<p>Nodwyd gennym fod tymheredd yr oergell yn yr ystafell clinig weithiau wedi cael ei gofnodi uwchlaw'r amrediad derbyniol. Nid oedd yn eglur a oedd y staff wedi uwchgyfeirio'r mater na pha</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod yr oergell yn addas ar gyfer storio meddyginiaethau yng ngoleuni'r tymhereddau uwch a nodwyd ar y rhestr wirio. Hefyd, rhaid atgoffa'r staff am eu cyfrifoldeb i uwchgyfeirio unrhyw</p>	<p>Caiff tymhereddau mewn ardaloedd storio meddyginiaethau eu monitro'n rheolaidd ac mae cofnodyddion data ar waith ac mae monitro tymhereddau cinetig cymedrig yn cael ei wirio, a lle y bo angen, caiff</p>	<p>Rheolwyr ward</p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Cwblhawyd Tachwedd 2023 a chynhelir gwaith monitro parhaus</p>

<p>gamau a oedd wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.</p>	<p>achosion lle mae'r tymheredd yn uwch na'r amrediad derbyniol.</p>	<p>ffactor dirywio ei gymhwyso at y dyddiad dod i ben, sy'n golygu y bydd angen dinistrio rhai cynhyrchion cyn y dyddiad dod i ben swyddogol ar becyn y gweithgynhyrchydd.</p> <p>Mae cyfarfod misol yn cael ei gynnal ar y cyd â rheolwyr gwasanaethau cymunedol er mwyn sicrhau y caiff unrhyw faterion a phryderon eu rheoli a'u deall.</p> <p>Caiff pryderon eu huwchgyfeirio drwy gyfarfodydd grŵp gweithredol ansawdd a diogelwch.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p>	
<p>Roedd gennym bryderon ynglŷn â diogelwch y trefniadau presennol i storio'r troliau meddyginiaeth ar y ward.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd i AGIC ynglŷn â'r camau pellach sydd wedi cael eu cymryd ers yr arolygiad i wella'r ffordd y caiff meddyginiaethau eu storio a'u cadw'n ddiogel ar y ward.</p>	<p>Bydd hapwiriadau yn cael eu cynnal bob mis er mwyn sicrhau nad yw meddyginiaeth yn cael ei storio yng ngwaelod y troli.</p> <p>Cafodd y tîm y wybodaeth ddiweddaraf er mwyn sicrhau</p>	<p>Rheolwr y ward Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Cwblhawyd Rhagfyr 2023 gyda phrosesau monitro parhaus wedi'u rhoi ar waith</p>

		<p>bod y troli yn ddiogel pan na fydd yn cael ei ddefnyddio a'i fod yn cael ei gloi.</p> <p>Bydd rheolwr y ward yn arsylwi ar rowndiau meddyginiaeth a chaiff unrhyw wersi a ddysgir eu bwydo'n ôl i'r tîm.</p> <p>Mae'r bwrdd iechyd wrthi'n datblygu presgripsiynu electronig â throlïau newydd ac felly bydd cyfle i ymgorffori arferion gorau.</p> <p>Mae grŵp rheoli meddyginiaethau misol yn cyflwyno adroddiad er mwyn sicrhau cysondeb drwy'r bwrdd iechyd cyfan.</p>	Arweinydd rheoli meddyginiaethau.	
<p>Ni allem gael sicrwydd a oedd Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth Cymru Gyfan yn cael eu llofnodi ar ôl rhoi meddyginiaeth neu ar ôl dosbarthu meddyginiaeth.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi canllawiau clir i'r staff nyrsio ar ei ddisgwyliadau o ran sut y dylid cwblhau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth Cymru Gyfan.</p>	<p>Mae rheolwyr meddyginiaethau wedi cadarnhau bod y broses "Dot a Phot" yn cael ei dysgu yn ystod hyfforddiant sefydlu a</p>	<p>Rheolwr y ward Pennaeth Nyrsio.</p>	<p>Cwblhawyd Tachwedd 2023</p>

		<p>hyfforddiant rheoli meddyginiaethau.</p> <p>Mae deunydd addysg ynglŷn â Dot a Phot ar gyfer staff ward yn swyddfa'r ward ac ar y ward er mwyn atgoffa'r staff.</p> <p>Mae'n bosibl nad yw staff asiantaeth yn gyfarwydd â'r system fewnol hon a byddwn yn ei hychwanegu at y broses sefydlu i staff asiantaeth er mwyn sicrhau defnydd cyson ohoni.</p> <p>Bwriedir cyflwyno presgripsiynu electronig yn 2024 ym mhob un o wardiau BIAP i gleifion mewnol, a bydd y tîm ePMA yn adolygu'r cynllun ar sut y dylid ei gyflwyno.</p>		
Gwelsom nad oedd pedwar claf yn gwisgo eu bandiau adnabod ac, yn lle hynny, fod y staff wedi glynu'r bandiau	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad ar y camau a gymerwyd ers yr arolygiad i sicrhau nad yw'r	Mae archwiliadau o fandiau arddwrn a gynhelir bob wythnos wedi cadarnhau	Rheolwr y ward	Cwblhawyd Hydref 2023 a chynhelir gwaith

<p>adnabod wrth droli gwely'r claf.</p>	<p>arfer o dynnu bandiau adnabod cleifion wedi parhau.</p>	<p>cydymffurfiaeth o 100% ers yr ymweliad.</p> <p>Mae hyn wedi cael ei gadarnhau drwy hapwiriadau yn ystod ymweliadau.</p> <p>Mae pob aelod o'r staff wedi llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen ac wedi deall y polisi adnabod claf yn gadarnhaol.</p> <p>Mae archwiliadau o'r holl wardiau i gleifion mewnol wedi cael eu cynnal, ac mae rheolwyr ward wedi cadarnhau bod y polisi yn cael ei ddilyn.</p> <p>Ni fu unrhyw gofnodion datix lle nodwyd bod band arddwrn ar goll.</p>	<p>Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>monitro parhaus</p>
<p>Gwelsom enghraifft o sgôr o dri o dan y Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol nad oedd wedi cael ei huwchgyfeirio i</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod sgoriau o dri neu'n uwch o dan Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol yn cael eu huwchgyfeirio ar unwaith er mwyn</p>	<p>Mae angen dadansoddiad o anghenion hyfforddiant mewn wardiau i gleifion mewnol.</p> <p>Mae'r Pennaeth Addysg Glinigol a'r Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Rheolwr y ward</p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol</p>	<p>Cwblhawyd Tachwedd 2023</p>

<p>bob golwg er mwyn cael diagnosis o sepsis o bosibl.</p>	<p>sicrhau bod achosion posibl o sepsis yn cael eu rheoli'n briodol ac yn amserol.</p>	<p>wedi adolygu ac wedi dod o hyd i hyfforddiant ar sepsis a Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol. Caiff yr hyfforddiant ei gyflwyno ynghyd â diweddariadau bob dwy flynedd fel rhan o'r metrigau hyfforddiant.</p> <p>Adolygwyd pob achos datix.</p> <p>Caiff y system/y broses ei hadolygu o ran sut y caiff Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol eu huwchgyfeirio, eu cofnodi a'u nodi.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Ebrill 2024</p> <p>Cwblhawyd Tachwedd 2023</p>
<p>Gwelsom nad oedd un claf wedi cael asesiad maeth 48 awr ar ôl cael ei dderbyn i'r ysbyty. Ni allem weld unrhyw dystiolaeth ychwaith fod siart fwyd claf arall wedi cael ei chwblhau yn ôl y gofyn.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael eu hasesiadau maeth yn amserol ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty a bod siartiau bwyd yn cael eu cwblhau pan fo'u hangen.</p>	<p>Bydd asesiadau yn cael eu harchwilio ar Gofnodion Gofal Nyrsio Cymru gan nyrs ddigidol - caiff wardiau eu hatgoffa i sicrhau eu bod yn gyflawn os nodir bylchau.</p> <p>Mae Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer terfynau amser asesiadau ar waith.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Deieteg</p>	<p>Ebrill 2024</p> <p>Cwblhawyd Hydref 2023</p>

		<p>Bydd rheolwr y ward yn sicrhau bod hyn yn dod yn eitem ar yr agenda mewn cyfarfodydd ward rheolaidd ac y caiff eithriadau eu nodi drwy gyfarfodydd un i un a chyfarfodydd ansawdd a diogelwch drwy eithriad.</p> <p>Bydd y Nyrs â Chyfrifoldeb yn adolygu'r ddogfennaeth bapur ac yn sicrhau bod maeth a hydradu yn cael eu dogfennu'n ddigonol.</p> <p>Caiff hyn ei fonitro drwy archwiliad 360 maeth a hydradu ac arlwyo tîm amlddisgyblaethol blynyddol y bwrdd iechyd.</p>	Rheolwr Gwella Ansawdd.	<p>Cwblhawyd Rhagfyr 2023</p> <p>Cwblhawyd Rhagfyr 2023</p> <p>Ebrill 2024</p>
<p>Roedd un aelod o'r staff yn teimlo nad oedd digon o opsiynau iach yn cael eu cynnig i'r cleifion yn eu prydau bwyd.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrion ar yr adborth hwn a phenderfynu a yw'r cleifion yn cael prydau bwyd maethlon, amrywiol a chytbwys.</p>	<p>Caiff y staff eu hannog i roi adborth yn ystod cyfarfod y grŵp maeth a hydradu er mwyn lleisio barn ar faeth cleifion.</p>	<p>Rheolwr y ward</p> <p>Pennaeth cyfleusterau</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Cwblhawyd Rhagfyr 2023</p>

		<p>Caiff prosiectau gwella ansawdd ar gyfer bwyta'n iach a maeth cynaliadwy eu hadolygu ar lefel ward er mwyn galluogi grymuso lleol ar gyfer mentrau gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.</p> <p>Mae Civica yn mynd ati i geisio adborth ar brydau bwyd gan gleifion.</p>		
<p>Nid oeddem yn gweld tystiolaeth wedi'i dogfennu bob amser fod cleifion wedi cael eu gwerthuso'n ddigon iach yn feddygol i'w rhyddhau.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd gofnodi'n gywir werthusiadau o b'un a yw'r cleifion yn ddigon iach i'w rhyddhau'n feddygol yng nghofnod cleifion.</p>	<p>Ailymgysylltu rhagweithiol yn rowndiau'r bwrdd a 6 nod.</p> <p>Caiff meddygon eu hatgoffa i gofnodi gwybodaeth am ryddhau claf a chaiff y tîm nyrsio ei atgoffa yn ystod y cyfarfod ward nesaf er mwyn sicrhau bod y ddogfennaeth nyrsio yn adlewyrchu trafodaeth y tîm amlddisgyblaethol.</p>	<p>Rheolwr y ward</p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Tîm Amlddisgyblaethol</p>	<p>Chwefror 2024</p>
<p>Yn ystod ein harolygiad, gwelsom nad oedd rhai o</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu unrhyw bolisiau nad ydynt yn</p>	<p>Roedd prosesau sefydliadol ar waith er mwyn sicrhau bod</p>	<p>Ysgrifennydd y Bwrdd</p>	<p>Ebrill 2024</p>

<p>bolisiau'r bwrdd iechyd yn gyfredol mwyach.</p>	<p>gyfredol er mwyn cefnogi'r staff yn eu rolau.</p>	<p>polisiau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.</p>		
<p>Roedd ymatebion y staff i holiaduron AGIC yn negyddol mewn perthynas â rhai agweddau ar weithio ar y ward.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrion ar yr adborth hwn ac ymgysylltu â'r staff er mwyn cael dealltwriaeth lawn o'u safbwyntiau a nodi camau gwella, yn enwedig mewn perthynas â phresenoldeb uwch-reolwyr a gallu'r staff i fynd atynt ac o ran cael gwared ar y 'diwylliant o feio' y cyfeiriodd y staff ato.</p>	<p>Cydnabyddir y pryderon hanesyddol gan y tîm o ran rheoli ymchwiliadau.</p> <p>Rydym wedi cyflwyno mentrau diwylliant tîm gan dîm y gweithlu a datblygu sefydliadol, ynghyd ag adborth goruchwyllo adferol ar ôl digwyddiadau.</p> <p>Mae'r tîm yn gwneud pob ymdrech i fod yn fwyfwy gweladwy a rhagweithiol ar y ward.</p>	<p>Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Mawrth 2024</p>
<p>Roedd ymatebion y staff i holiaduron AGIC yn negyddol mewn perthynas ag adnoddau staffio.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrion ar yr adborth hwn a rhoi sicrwydd i AGIC bod nifer y staff ar gyfer y ward yn briodol o hyd a bod modd cyflenwi staff heb ddefnyddio staff asiantaeth yn rheolaidd.</p>	<p>Mae'r bwrdd iechyd wedi gwneud penderfyniad i ddefnyddio proses staffio diogel Cymru gyfan (ddwywaith y flwyddyn). Mae hyn yn cynnwys barn broffesiynol y nyrs â chyfrifoldeb am y ward a thriongli â niweidiau Datix,</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio</p> <p>Arweinydd staff nyrsio</p>	<p>Mehefin 2024</p>

		<p>lefelau staffio a chwynion/pryderon.</p> <p>Yn ystod adolygiad ym mis Mawrth 2023 gwnaethom leihau'r sylfaen gwelyau o 18 i 14 er mwyn cefnogi staffio mwy diogel.</p> <p>Bydd recriwtio gweithredol, gan gynnwys nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol sy'n cyrraedd yn ystod gwanwyn 2024 yn lleihau nifer y swyddi gwag ymhellach ac yn cryfhau'r tîm drwy leihau'r defnydd o staff asiantaeth.</p> <p>Pan fydd nyrsys asiantaeth yn bresennol ar y ward, cânt eu trefnu am gyfnod o amser er mwyn cynnig parhad gofal a dealltwriaeth o brosesau'r bwrdd iechyd.</p>		
Ni allem weld unrhyw wybodaeth ar y ward am y broses Gweithio i Wella.	Rhaid i'r bwrdd iechyd arddangos gwybodaeth i gleifion am y broses Gweithio i Wella.	Roedd y bwrdd Llais wrthi'n cael ei ddiweddarau ac mae bellach wedi cael ei	Rheolwr y ward	Cwblhawyd Hydref 2023

		<p>adnewyddu drwy ychwanegu'r wybodaeth fwyaf cyfredol.</p> <p>Atgoffwyd y staff i gyfeirio cleifion ac ymwelwyr at y defnydd cywir o broses Gweithio i Wella.</p>		
<p>Dyweddodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur nad ydynt yn cael diweddariadau rheolaidd ar ganlyniadau adborth cleifion.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd hysbysu pob aelod o'r staff o'r hyn a ddysgwyd drwy adborth cleifion er mwyn helpu i gyflwyno unrhyw welliannau i ofal cleifion a nodwyd.</p>	<p>Rhoddir adborth rheolaidd i'r ward pan ddaw i law drwy'r tîm ansawdd/Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol/Pennaeth Nyrsio.</p> <p>Gofynnodd y rheolwyr ward i hyn gael ei ychwanegu fel eitem sefydlog ar yr agenda a'i gofnodi er mwyn sicrhau bod pob tîm yn ymwybodol o'r adborth sy'n dod i law.</p> <p>Caiff adborth ei rannu hefyd drwy gyfarfodydd y rheolwyr ward er mwyn sicrhau bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu drwy'r bwrdd iechyd cyfan.</p>	<p>Rheolwr y ward</p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Cwblhawyd Hydref 2023</p>

<p>Cawsom rai sylwadau yn yr holiaduron staff mewn perthynas â phroblemau gyda'r dechnoleg ddigidol yn yr ysbyty.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw broblemau TG yn cael eu datrys yn amserol. Hefyd, rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd bod cleifion bob amser yn cael bandiau adnabod claf ar adeg eu derbyn, yn enwedig ar y penwythnos.</p>	<p>Mae'r problemau TG diweddar wedi cael eu datrys yn dilyn prosiect cyfuno.</p> <p>Bydd Datix yn cael ei ddefnyddio i roi gwybod am achosion o ddiffyg gwasanaeth.</p> <p>Bydd proses adrodd drwy'r grŵp ansawdd a diogelwch.</p>	<p>Rheolwr y ward</p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Cwblhawyd Tachwedd 2023</p>
<p>Gwelsom feysydd tebyg i'w gwella yn yr arolygiad hwn a oedd wedi cael eu nodi'n flaenorol ar safle ysbyty arall ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ym mis Ionawr 2023.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw welliannau a nodwyd yn arolygiadau AGIC yn cael eu rhannu drwy'r bwrdd iechyd cyfan a bod yr holl wasanaethau perthnasol yn gweithredu arnynt er mwyn dangos ymrwymiad ehangach i weithredu ar yr hyn a ddysgir.</p>	<p>Caiff adborth a gwersi a ddysgwyd eu rhannu rhwng yr holl wasanaethau ar ôl ymweliad.</p> <p>Mae cynllun gweithredu thematig yn cael ei ddatblygu o bob un o'r chwe ymweliad er mwyn sicrhau dull cydlynol a chydweithredol o ddatrys rhai o'r problemau a welwn.</p> <p>Mae cyfarfodydd misol i adolygu'r cynllun gweithredu wedi cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod cynnydd yn</p>	<p>Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol</p>	<p>Cwblhawyd Hydref 2023</p>

		cael ei wneud a bod cymorth i uwchgyfeirio materion ar gael.		
Nid oedd y bwrdd ar gyfer metrigau perfformiad diogelwch yn gyfredol ac roedd yn arddangos y data ar gyfer mis Awst 2023.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y bwrdd 'Sut rydym yn perfformio' bob amser yn gyfredol er mwyn rhoi gwybodaeth amser real a chodi ymwybyddiaeth o unrhyw welliannau sydd eu hangen.	<p>Cynhelir adolygiad o fethodoleg system gyfan o ran byrddau sut rydym yn perfformio a disgwylir diweddariad ar ddechrau 2024.</p> <p>Caiff pob rheolwr ward ei atgoffa am bwysigrwydd arddangos gwybodaeth gyfredol a chywir.</p> <p>Cynhelir hapwiriadau misol er mwyn sicrhau bod data yn gyson â'r adroddiadau.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Mawrth 2024</p> <p>Cwblhawyd Hydref 2023</p> <p>Cwblhawyd Hydref 2023</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Linzi Shone

Teitl swydd: Pennaeth Nyrsio Proffesiynol

Dyddiad: 18/12/2023